# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 2AIL GORFFENNAF, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 24 Mehefin 2021)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

E. Selwyn Griffiths
Peredur Jenkins
Dyfrig L. Siencyn
Dafydd Meurig
Annwen Hughes
Mair Rowlands
Gethin Glyn Williams
Olaf Cai Larsen

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Eric M. Jones
Dewi Wyn Roberts
Eryl Jones-Williams
Angela Russell

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Propel (1)

Y Cynghorydd Peter Read

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2021 / 2022

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is gadeirydd ar gyfer 2021 / 2022

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 16 Ebrill 2021 fel rhai cywir

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau’r wasg a’r cyhoedd allan o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae’r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd a hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae’r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw’r wybodaeth yn eithriedig

## 8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENNAETH TAI AC EIDDO

I ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr.

Pecyn gwybodaeth a ffurflenni cais wedi ei dosbarthu i Aelodau’r Pwyllgor yn unig

---

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 16-04-21**

---

**Presenoldeb:** Cynghorydd Dafydd Meurig (Cadeirydd)
Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Is Gadeirydd)

Cynghorwyr: Glyn Daniels, Selwyn Griffiths, Peredur Jenkins, Eric M Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Peter Read, Dewi W Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn a Gethin Glyn Williams

**Swyddogion:**

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Cynghorydd Edgar Owen (Cadeirydd y Cyngor)
Ms Sian Goodson (Cwmni GoodsonThomas)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Anwen Hughes a'r Cynghorydd Simon Glyn

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19-03-21 fel rhai cywir

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

**8. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD PRIF WEITHREDWR**

a) Cadarnhawyd trefn y diwrnod gyda'r Aelodau.

b) Gwahoddwyd Ms Siân Goodson o gwmni Goodson Thomas i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau'r ddau ymgeisydd yn y Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 29/03/21 drwy nodi canlyniadau'r profion seicometreg a chymwyseddau'r ymgeiswyr. Roedd copi o'r adroddiad wedi ei ddosbarthu i'r Aelodau.

Gwahoddwyd Mr Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau'r ddau ymgeisydd mewn cyfweliad proffesiynol a gynhaliwyd 01/04/21 gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol, 3 Aelod Cabinet a Chadeirydd y Fforwm Craffu. Roedd copi o'r adroddiad wedi ei ddosbarthu i'r Aelodau.

c) Cyfwelwyd dau ymgeisydd ar gyfer y swydd.

Rhoddodd yr ymgeiswyr gyflwyniad ar *"Mae nhw'n dweud bod y 100 diwrnod cyntaf yn bwysig mewn taith unrhyw Arweinydd. Be fyddech chi yn ei wneud yn eich 100 diwrnod cyntaf a pham?"* Ymatebwyd i chwe chwestiwn ffurfiol a ofynnwyd gan y Cadeirydd ynghyd a chwestiynau dilynol gan yr Aelodau.

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Dafydd Gibbard.

**PENDERFYNWYD: Argymell i'r Cyngor Llawn (mewn cyfarfod arbennig a gynhelir 23/04/21), benodi Mr Dafydd Gibbard i'r swydd Prif Weithredwr**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 16:15pm